FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd

Cyngor Sir Gaerfyrddin

11 - 13 Mawrth 2003

Rhagair

Mae cynnal awdit o wasanaethau cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i roi mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr ac i wella eu hyder mewn perthynas â bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforir a bwydydd anifeiliaid. Trwy Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yr awdurdodau mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni'n bennaf.

Mae adroddiad yr awdit sy'n amgaeëdig yn archwilio gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol sydd ar waith i gynnal archwiliadau o fusnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplu a dadansoddi, rheoli mewnol, hyrwyddo diogelwch bwyd a gweithgareddau addysgol. Dylid cydnabod bod y ffordd a'r dull mae awdurdodau unedol yn darparu eu gwasanaethau gorfodi bwyd yn gallu amrywio'n fawr gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae awdit yr Asiantaeth yn asesu cydymffurfiad awdurdod lleol â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd – "Y Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun awdit yw cynnal a chynyddu'r diogelwch a roir i ddefnyddwyr a gwella hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arferion da a darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft ar nifer yr archwiliadau o safleoedd bwyd a wnaed. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data gweithgarwch gorfodi holl awdurdodau lleol y DU.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr Awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r awdit.

Mae geirfa o dermau technegol a ddefnyddiwyd yn adroddiad yr awdit ar gael i'ch helpu yn Atodiad A.

CYNNWYS

		Tudalen
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Awdit	**4**
	Cwmpas yr Awdit	**4**
	Cefndir	**5**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**7**
	Canfyddiadau'r Awdit	
3	Trefniadaeth a Rheolaeth	**9**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Dogfenedig	**11**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**12**
6	Cyfleusterau ac Offer	**14**
7	Archwiliadau Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**15**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**19**
9	Egwyddor Awdurdod Cartref	**20**
10	Cyngor i Fusnes	**21**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**22**
12	Archwilio a Samplu Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**23**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd	**24**
14	Achosion Diogelwch Bwyd	**25**
15	Gorfodaeth	**26**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Archwilio	**28**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**30**
18	Ymgynghori â Sefydliadau Eraill	**31**
19	Monitro Mewnol	**32**
20	Adolygiad gan Gymheiriaid neu Drydydd Parti	**33**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**34**
	Cynllun Gweithredu i Gyngor Sir Gaerfyrddin	**35**
	Atodiad	
A	Geirfa	**40**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r awdit dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Bydd rhaid i chi dalu ffi atgynhyrchu a thrafod o £7.50 a £1.50 am bostio a phacio.

Rhesymau am yr Awdit

1.2 Rhoddwyd y pŵer i osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Cynhaliwyd yr awdit o wasanaeth bwyd Cyngor Sir Gaerfyrddin dan adran 12(4) y Ddeddf fel rhan o raglen awdit flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Cafodd yr Awdurdod ei archwilio fel rhan o raglen awdit llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Awdit

1.4 Roedd yr awdit yn cwmpasu gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Cyngor Sir Gaerfyrddin. Cynhaliwyd elfen ar-safle yr awdit yn swyddfeydd y Cyngor yn yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin a Thŷ Elwyn, Llanelli ar 11-13 Mawrth 2003.

1.5 Bu'r awdit yn asesu sut i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Safon, gan ddefnyddio protocolau awdit FSA/AP3/1 – FSA/AP21/1. Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Gorffennaf 2004), ac mae'n rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth gydag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau awdit ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Sir Gaerfyrddin yw trydedd sir fwyaf Cymru gydag arwynebedd o 2,394.5 cilometr sgwâr a phoblogaeth o 173,600. Caerfyrddin yw prif dref y sir, tref amaethyddol sydd â marchnad da byw newydd. Mae yna nifer o drefi marchnad llai yn yr ardal hefyd. Mae de ddwyrain y sir, y rhan fwyaf poblog, yn gysylltiedig â'r diwydiannau glo, dur a thunplat. Mae'r dirywiad yn y diwydiannau hyn wedi arwain at ddatblygu diwydiannau peirianneg ysgafn a thechnoleg newydd. Yr arfordir a chefn gwlad yw'r prif atyniadau i drigolion lleol a thwristiaid gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a dyffrynnoedd hardd y Tywi, y Taf a'r Teifi yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i hamddena.

1.7 Cynhaliwyd y gwaith o orfodi cyfraith bwyd gan swyddogion Adrannau Safonau Masnach a Gwasanaethau Masnachol Is-adran Diogelu'r Cyhoedd sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai.

1.8 Mae Swyddfeydd y Cyngor ar agor o 09:00-17:00 ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae gan y Cyngor wasanaeth anffurfiol y tu allan i oriau lle gellir cysylltu â swyddogion o'r gwasanaeth gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid os ydynt ar gael. Roedd rhif ffôn y gwasanaeth ar gael yn hawdd i aelodau'r cyhoedd.

1.9 Yn ogystal â gorfodi bwyd, roedd swyddogion yr Adran Safonau Masnach a Gwasanaethau Masnachol hefyd yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau yn cynnwys iechyd a diogelwch galwedigaethol, hybu iechyd, trwyddedu, metroleg, cyngor i ddefnyddwyr, masnachu teg a diogelwch cynhyrchion.

1.10 Mae lefel staffio'r Adran Safonau Masnach a Gwasanaethau Masnachol a nodwyd yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod yn 2003/2004 wedi'i nodi isod:

Adnodd ar gael	**CALl***
Swyddogion Gorfodi Hylendid Bwyd	7.0
Swyddogion Gorfodi Safonau Bwyd	1.0
Swyddogion Gorfodi Bwydydd Anifeiliaid	0.5
Swyddogion Addysg Bwyd	0.4
Cyfanswm	**8.9**

*Cyfwerth ag amser llawn

1.11 Mae'r Cynllun Gwasanaeth yn nodi bod angen 1 swyddog CALl arall i fodloni gofynion y gwasanaeth archwilio diogelwch bwyd.

1.12 Dosbarthwyd costau ariannol y gwasanaeth diogelwch bwyd dan 3 pennawd: diogelwch bwyd, safonau bwyd, a chlefydau trosglwyddadwy.

£544,353 oedd cyfanswm y gwariant ar gyfer 2001/02 ac roedd yr Awdurdod wedi brasamcanu bod angen cyllideb o £605,798 ar gyfer 2002/2003.

1.13 Roedd adroddiadau monitro'r Awdurdod i'r Asiantaeth am bedwar chwarter blwyddyn ariannol 2002/2003 yn dangos bod yr Adrannau Safonau Masnach a Gwasanaethau Masnachol yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth hylendid bwyd mewn 2315 o safleoedd. Roedd y busnesau bwyd hyn o fewn y sectorau arlwyo a manwerthu'n bennaf. Roedd yr adroddiadau'n dangos bod yr Awdurdod wedi cynnal y gweithgarwch canlynol yn ystod 2002-2003:

Gweithgarwch gorfodi	**Nifer**
Archwiliadau hylendid bwyd	933
Ymweliadau hylendid bwyd eraill	551
Archwiliadau safonau bwyd	459
Ymweliadau safonau bwyd eraill	359
Archwiliadau bwydydd anifeiliaid	12
Ymweliadau bwydydd anifeiliaid eraill	0
Samplau anffurfiol	370
Samplau ffurfiol	372

1.14 Mae ymchwiliadau parhaus i weithdrefnau lladd anghyfreithlon wedi effeithio'n sylweddol ar yr adnoddau sydd gan yr Awdurdod i wneud gwaith gorfodi bwyd rheolaidd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Lliniarwyd hyn trwy gefnogaeth secondiad gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

1.15 Mae'r Awdurdod wedi'i effeithio hefyd gan achos o wenwyn pysgod cregyn annodweddiadol a arweiniodd at gau ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn masnachol y sir.

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd cofnodion archwiliadau hylendid bwyd rheolaidd yr Awdurdod yn fanwl a chynhwysfawr a oedd yn golygu bod modd gwneud asesiad effeithiol o weithgareddau gorfodi priodol. Roedd yr ymchwiliadau mawr i ladd anghyfreithlon hefyd yn dangos gallu'r Awdurdod i gynnal gwaith gorfodi effeithiol dan amgylchiadau anodd.

2.2 Fodd bynnag, mae diffygion yng nghofnodion ymchwiliadau safonau bwyd ac yn y defnydd o Rybuddion i Wella, yn dangos fod gan yr Awdurdod lawer o waith i'w wneud eto er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Safon.

2.3 Cryfderau'r Awdurdod

Ymchwilio i faterion iechyd cyhoeddus o bwys

Mae'r Awdurdod wedi mynd ati'n ddiwyd i gynnal ymchwiliad cymhleth ac eang i weithdrefnau lladd anghyfreithlon oedd â goblygiadau sylweddol i iechyd y cyhoedd a'r economi yn genedlaethol. Bu'n rhaid i swyddogion yr Awdurdod ddatblygu sgiliau newydd a ffurfio partneriaethau gwaith newydd gyda sefydliadau i sicrhau bod y sawl oedd yn euog yn cael eu herlyn yn llwyddiannus.

Roedd yr Awdurdod wedi clustnodi adnoddau sylweddol i sicrhau bod cynaeafu pysgod cregyn yn cael ei wahardd pan ganfuwyd achos o wenwyn annodweddiadol. Roedd hyn yn golygu cydweithio'n agos â'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn cynnwys ehangu'r rhaglen samplu wreiddiol yn sylweddol.

Cofnodion Ymchwiliadau Hylendid Bwyd

Roedd gan yr Awdurdod gofnodion cynhwysfawr o'r holl fathau o archwiliadau hylendid bwyd a gynhaliwyd yn cynnwys archwiliadau o safleoedd cyffredinol, safleoedd cymeradwy a safleoedd cigyddion trwyddedig. Roedd y cofnodion yn rhoi asesiad cywir o hanes y safleoedd hyn gan alluogi ymateb gorfodi priodol yn dilyn archwiliadau neu gwynion.

2.4 Meysydd Allweddol i'w Gwella

Rhaglen Archwilio Safonau Bwyd

Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal archwiliadau mor aml ag oedd angen yn ôl gofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. Bydd archwilio safleoedd yn rheolaidd, o fewn yr amser a nodir yn y Cod, a gweithgareddau cynghori a gorfodi

effeithiol yn helpu i sicrhau bod safleoedd yr Awdurdod yn cydymffurfio'n dda â gofynion cyfreithiol ac yn gweithredu arferion da.

Cofnodion Archwiliadau Safonau Bwyd

Nid oedd cofnodion safleoedd cyffredinol yn gyflawn. Nid oeddent yn cynnwys digon o fanylion i roi hanes cywir am y safle i archwiliadau dilynol, i benderfynu a oedd camau gorfodi dilynol yn briodol, ac i alluogi'r Awdurdod i fonitro ansawdd y gwaith gorfodi yn effeithiol.

Rhybuddion i Wella

Roedd yna ddiffygion sylweddol yng ngwaith drafftio a phrosesu Rhybuddion i Wella, a oedd yn amlygu'r angen am hyfforddiant ychwanegol i staff yn y maes hwn a mwy o fonitro mewnol. I fod yn effeithiol, dylai'r Awdurdod sicrhau bod Rhybuddion i Wella yn cael eu defnyddio fel dull gorfodi pwysig yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol a Chod Ymarfer Rhif 5 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Rhybuddion i Wella.

Canfyddiadau'r Awdit

3 Trefniadaeth a Rheolaeth

3.1 Roedd yr Awdurdod yn cael ei arwain gan Fwrdd Gweithredol oedd yn cynnwys Arweinydd, Dirprwy Arweinydd, ac 8 Aelod Gweithredol gyda phortffolio penodol. Roedd gweddill y Cyngor yn cynnwys Pwyllgor Safonau, Pwyllgorau Craffu a nifer o bwyllgorau rheoliadol a phwyllgorau eraill. Yr Aelod Cabinet gyda phortffolio am Dai a Diogelu'r Cyhoedd oedd yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd.

3.2 Roedd gan yr Awdurdod 6 Cyfarwyddiaeth, ac Adrannau Safonau Masnach a Gwasanaethau Masnachol Is-adran Diogelu'r Cyhoedd a oedd yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai oedd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth cyfraith a gorfodi bwyd.

3.3 Roedd gwaith y gwasanaeth gorfodi diogelwch bwyd yn gysylltiedig â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod trwy nifer o werthoedd ac amcanion allweddol a nodir isod:

- Gwella iechyd y preswylwyr a'u gallu i gael gafael ar ofal iechyd a lleihau lefelau troseddu ac anhrefn, trwy ymrwymo i gynnal rhaglen lawn o archwiliadau diogelwch a safonau bwyd a samplu bwyd rheolaidd er mwyn gwirio diogelwch bwyd yn y sir. Mae'r gwasanaeth yn ymateb hefyd i atal bwyd anniogel rhag cyrraedd y gadwyn fwyd.

- Codi safonau addysgol i gyflawni neu wella ar Dargedau'r Llywodraeth ym maes sgiliau sylfaenol a chyrhaeddiad addysgol, trwy greu ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant ar ddiogelwch bwyd mewn ysgolion a cholegau.

- Hyrwyddo dysgu gydol oes a datblygiad personol gan ganolbwyntio ar wella cyfleoedd cyflogaeth, trwy ddechrau hyfforddiant diogelwch bwyd a chymryd rhan ynddo.

- Cynnal, hyrwyddo a datblygu defnydd ehangach o'r Gymraeg ym mywydau cyhoeddus, cymunedol a phersonol y preswylwyr, gan roi pwyslais arbennig ar ddiogelu cymunedau Cymraeg, gan gyflogi staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

- Ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio cyfleusterau a Gwasanaethau'r Cyngor a chyfathrebu'n well gyda phreswylwyr i lywio rhaglenni'r dyfodol, trwy ddatblygu'r Rhyngrwyd fel cyfrwng gwybodaeth a chyngor i aelodau'r cyhoedd a busnesau.

3.4 Roedd yr Awdurdod yn adrodd bob chwarter i'r pwyllgor trwy adroddiad Dangosydd Perfformiad Rheoli Perfformiad. Y dangosyddion a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth gorfodi bwyd oedd:

- Canran yr archwiliadau o safleoedd bwyd y dylid bod wedi'u cynnal, a gynhaliwyd mewn:
  (a) safleoedd uchel eu risg;
  (b) safleoedd eraill.

- Canran y cwynion am ddiogelwch bwyd a Rhybuddion Perygl i Fwyd yr ymatebwyd iddynt o fewn 5 diwrnod gwaith.

3.5 Yn 2001/2002, cynhaliodd yr Awdurdod 99% o archwiliadau mewn safleoedd uchel eu risg a 98% o archwiliadau mewn safleoedd eraill gan ymateb i 92% o gwynion am ddiogelwch bwyd a Rhybuddion Perygl i Fwyd o fewn 5 diwrnod gwaith.

3.6 Roedd yr Awdurdod wedi llunio Cynllun Gwasanaeth Bwyd cynhwysfawr ar gyfer 2003/2004, a oedd yn cydymffurfio â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd mewn Awdurdodau Lleol. Roedd y Cynllun Gwasanaeth wedi'i gymeradwyo gan y fforwm Aelodau perthnasol ym mis Mawrth 2003.

3.7 Roedd y Cynllun Gwasanaeth i'w adolygu'n flynyddol ochr yn ochr â'r Cynllun Busnes Adrannol a'r dangosyddion perfformiad chwarterol, er nad oedd adolygiad o'r fath wedi'i gynnal ar adeg yr awdit gan mai Cynllun 2003/2004 oedd y cyntaf i'r Awdurdod ei baratoi.

3.8 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn nodi bod angen mwy o staff i ddarparu'r gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Dogfenedig

4.1 Roedd yr Awdurdod wedi llunio nifer o weithdrefnau dogfenedig ar gyfer sawl maes o'i weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd. Nid oedd ganddo system i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer holl weithgareddau gorfodi sy'n dod dan Y Safon yn cael eu hadolygu. Fodd bynnag, roedd llawlyfr ansawdd drafft yr adran safonau masnach yn cynnwys system reoli ddogfenedig a gofyniad i adolygu pob agwedd o leiaf unwaith y flwyddyn. Dywedwyd wrth yr archwilwyr fod yr Awdurdod yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater o adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau eraill.

4.2 Roedd staff yn gallu cael gafael ar gopïau caled o wyddoniaduron cyfraith bwyd masnachol a chopïau caled o'r holl ddogfennau angenrheidiol ar gyfer cyflawni gweithgareddau gorfodi, yn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau priodol.

Argymhellion

4.3 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1]

(ii) Ehangu ei system reoli ddogfenedig i gynnwys hylendid bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd yr Awdurdod wedi penodi 2 swyddog arweiniol gyda'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol ar gyfer gorfodi hylendid bwyd ac ar gyfer gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

5.2 Roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo cynllun dirprwyo ym mis Mai 2002 a oedd yn adlewyrchu strwythur y Bwrdd Gweithredol newydd. Roedd pob swyddog wedi derbyn dogfen awdurdodi yn rhoi manylion y ddeddfwriaeth yr oedd y swyddog dan sylw ag awdurdod i'w gorfodi. Roedd hon yn nodi pa bwerau penodol oedd gan y swyddogion yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion. Fodd bynnag, roedd yr holl swyddogion yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad.

5.3 Roedd cynllun arfarnu staff yn mynd i gael ei roi ar waith ddechrau mis Ebrill 2003 i nodi anghenion hyfforddi swyddogion, ond ar adeg yr awdit, gwnaed hyn yn ad-hoc, gydag anghenion cyffredinol y gwasanaeth yn cael eu nodi trwy ddulliau fel cyfarfodydd tîm. Nid oedd cynllun hyfforddi ar gael i staff y gwasanaeth.

5.4 Roedd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o gymwysterau swyddogion unigol a'r hyfforddiant a gawsant ond roedd angen eu hehangu i gynnwys manylion am gynnwys ac amcanion y cyrsiau, eu hyd ac unrhyw asesiad a wnaed o'r hyfforddiant.

5.5 Cafodd y gyllideb ar gyfer hyfforddiant ei chynnwys o fewn y brasamcan ar gyfer y flwyddyn 2003/2004 yn ôl yr hyn a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd. Er nad oedd dadansoddiad o'r gyllideb ar gael ar adeg yr awdit, roedd hi'n amlwg o nifer y cyrsiau a ddilynwyd a'u perthnasedd fod yr Awdurdod yn ymroddedig i ddarparu hyfforddiant priodol i'w staff.

Argymhellion

5.6 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu gweithdrefn ddogfenedig i awdurdodi swyddogion a'i rhoi ar waith. [Y Safon – 5.1]

(ii) Llunio a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig i gynnwys pob agwedd ar y gwasanaeth. [Y Safon – 5.4]

(iii) Cofnodi cynnwys, amcanion, hyd ac unrhyw asesiad a wnaed o gyrsiau hyfforddi a fynychwyd. [Y Safon – 5.4]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi darparu'r holl offer a chyfleusterau oedd yn angenrheidiol fel bod modd cynnal yr holl weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth.

6.2 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi ei thermomedrau. Cadwyd cofnodion o ddyddiadau graddnodi thermomedr a oedd yn gysylltiedig â'r graddnodi bob dwy flynedd gan y gweithgynhyrchwr.

6.3 Roedd meddalwedd gyfrifiadurol yr Awdurdod yn gallu darparu gwybodaeth ystadegol ar gais gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn gorfforaethol i sicrhau bod systemau priodol wrth gefn ar waith i leihau'r risg o lygredd neu golli gwybodaeth a gedwid mewn cronfeydd data.

Argymhelliad

6.4 Dylai'r Awdurdod:

Lunio a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi i sicrhau bod pob offeryn mesur tymheredd yn cael ei raddnodi a'i wirio yn unol â Chod Ymarfer Rhif 10 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi Gofynion Rheoli Tymheredd Rheoliadau Hylendid Bwyd.
[Y Safon – 6.2]

7 Archwiliadau Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Cyffredinol

7.1 Yn ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2003/2004 nododd yr Awdurdod fod ganddo 1991 o safleoedd bwyd ar ei gronfa dda:

Math o Fusnes	Nifer	%*
Cynhyrchydd Cynradd	36	2.0
Lladd-dy	7	0.5
Gweithgynhyrchydd/ Prosesydd	53	3.0
Paciwr	6	0.5
Dosbarthydd/Cludydd	38	2.0
Manwerthwr	580	29.0
Tai Bwyta ac arlwywyr eraill	1239	61.0
Gweithgynhyrchydd sy'n gwerthu trwy fanwerthu'n bennaf	32	2.0
CYFANSWM	**1991**	

* Ffigurau wedi'u talgrynnu

Hylendid Bwyd

7.2 Roedd ffigurau adroddiadau monitro 2001/2002 yn nodi bod gan safleoedd yr Awdurdod y proffil risg canlynol:

Categori Risg	Nifer	%*
A	11	1
B	144	6
C	584	25
D	143	6
E	67	3
F	1	0
Di-radd	598	26
Tu allan i'r rhaglen	774	33
CYFANSWM	**2322**	

* wedi'u talgrynnu i'r canran agosaf

7.3 Roedd yr Awdurdod wedi nodi 32 safle fel rhai trwyddedig dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cig) (Diwygio) (Cymru) 2000, ac wedi cymeradwyo 26 safle dan ddeddfwriaeth cynnyrch penodol (Safleoedd Cymeradwy).

7.4 Archwiliwyd hanes archwilio 10 safle cyffredinol a 10 Safle Cymeradwy. Roedd 10 safle cyffredinol a 6 Safle Cymeradwy wedi'u harchwilio'n ddigon rheolaidd.

7.5 Dangosodd adroddiad cyfrifiadurol a gynhyrchwyd yn ystod yr awdit fod yr archwiliadau canlynol yn dal heb eu gwneud gan yr Awdurdod:

Categori Risg	Nifer sy'n hwyr
A	4
B	4
C	14
D	7
E	13
F	0
CYFANSWM	42

7.6 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu nifer o weithdrefnau archwilio dogfenedig cynhwysfawr, a oedd yn cwmpasu safleoedd cyffredinol, safleoedd a gymeradwywyd dan reoliadau cynnyrch penodol a safleoedd cigyddion a oedd angen eu trwyddedu. Defnyddiwyd adroddiadau archwilio a ffurflenni archwilio safonol i gofnodi canfyddiadau archwilio a manylion busnes.

7.7 Roedd swyddogion gydag awdurdod priodol wedi cynnal archwiliadau trylwyr o safleoedd cyffredinol ac wedi darparu cyfradd risg gywir, yn unol â chanllawiau swyddogol. Cymerwyd camau gweithredu dilynol priodol ym mhob achos o fethu â chydymffurfio, yn cynnwys ail-ymweliadau o fewn yr amser priodol.

7.8 Roedd adroddiadau wedi'u hanfon at berchnogion yn dilyn archwiliadau o safleoedd cyffredinol a Safleoedd Cymeradwy. Roedd yr adroddiadau'n glir a'r gofynion cyfreithiol yn wahanol i'r argymhellion. Cafodd y gwaith oedd angen ei wneud ei nodi'n glir, gan ystyried Canllawiau'r Diwydiant ac roedd yn gyson â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Roedd y cyfeiriadau cyfreithiol yn gywir ym mhob achos.

7.9 Roedd ffeiliau'r Safleoedd Cymeradwy a archwiliwyd yn cynnwys dogfennau cymeradwyo ac roedd y gweithgareddau a gymeradwywyd a rhestr o'r cynhyrchion a gymeradwywyd yn bresennol yn yr holl ffeiliau. Roedd y datganiad fod cymeradwyaeth yn dibynnu ar gydymffurfio ac y dylai busnes hysbysu'r Awdurdod am unrhyw newidiadau gweithredu ar goll o 5 ffeil.

7.10 Archwiliwyd deg ffeil a oedd yn gysylltiedig â safleoedd cigyddion trwyddedig. Defnyddiwyd ffurflenni cais ac archwilio safonol. Roedd y

ceisiadau wedi'u penderfynu o fewn 28 diwrnod. Yn achos 3 ffeil, roedd tystiolaeth fod yna ychydig o waith yn dal heb ei wneud ar y safle er bod yr Awdurdod wedi rhoi trwydded. Yn achos y safleoedd cymysg, nid oedd y drwydded yn nodi i ba ardal o'r safle yr oedd yn berthnasol.

Argymhellion

7.11 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Sicrhau bod y broses o archwilio a thrwyddedu safleoedd cigyddion yn cael ei chynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau swyddogol. [Y Safon – 7.2]

Safonau Bwyd

7.12 Roedd ffigurau adroddiadau monitro 2001/2002 yn nodi fod gan safleoedd yr Awdurdod y proffil risg canlynol:

Categori Risg	Nifer	%*
Uchel	113	
Canolig	45	
Isel	4	
Di-radd	2	
CYFANSWM	**164**	

7.13 Archwiliwyd hanes archwilio 10 safle mewn perthynas ag archwiliadau safonau bwyd. Roedd un heb ei archwilio'n ddigon rheolaidd yn ôl gofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd. Yn achos 2 ffeil arall, roedd prinder cofnodion yn ei gwneud hi'n amhosib gwneud penderfyniad. Roedd y cyfan wedi'u hasesu'n gywir am risg a'u harchwilio gan swyddog awdurdodedig priodol. Roedd yr Awdurdod wedi llunio adroddiad cyfrifiadurol yn nodi archwiliadau oedd heb eu gwneud adeg yr awdit gyda'r proffil canlynol.

Categori Risg	Nifer
Uchel	32
Canolig	281
Isel	7
Di-radd	4
CYFANSWM	**324**

7.14 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefnau dogfenedig ar archwilio safleoedd safonau bwyd bwydydd anifeiliaid yn y llawlyfr ansawdd safonau masnach drafft.

7.15 Roedd archwiliadau safonau bwyd yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata, ond roedd adroddiadau archwilio ar goll o 9 ffeil a archwiliwyd. Roedd y wybodaeth am safleoedd nad oedd yn gweithgynhyrchu yn gyfyngedig ac yn gyffredinol nid oedd digon o wybodaeth yn y ffeiliau i asesu a gynhaliwyd yr archwiliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol neu a aseswyd cydymffurfiad â safonau cyfreithiol. Roedd mwy o wybodaeth yn y ffeiliau ar safleoedd gweithgynhyrchu.

7.16 Roedd yr Awdurdod yn cadw cofnodion cyfrifiadurol o archwiliadau safleoedd bwydydd anifeiliaid ond nid oeddent yn cynnwys digon o fanylion i asesu a gynhaliwyd archwiliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol neu a aseswyd cydymffurfiad â safonau cyfreithiol.

Argymhellion

7.17 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod archwiliadau safonau bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Sicrhau bod adroddiadau ôl-archwilio'n cael eu cyhoeddi ar ôl pob archwiliad o safonau bwyd. [Y Safon – 7.2]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi dogfenedig a gweithdrefn yn gysylltiedig â chwynion am hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd hwn yn cynnwys ffurflenni safonol ar gyfer cofnodi'r gŵyn, cyflwyno'r gŵyn i'r dadansoddwr cyhoeddus neu'r archwiliwr bwyd a nifer o lythyrau safonol a ddefnyddiwyd i ohebu gyda'r achwynydd, manwerthwr/gweithgynhyrchwr a'r Awdurdod Cartref/Gwreiddiol. Nid oedd y ddogfen yn cyfeirio at gwynion am fwydydd anifeiliaid.

8.2 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â 10 o gwynion am hylendid bwyd. Roedd hi'n ymddangos bod ymchwiliadau anghyflawn ac amhriodol wedi'u cynnal mewn 4 achos, yn cynnwys diffyg cyswllt gyda'r manwerthwr/gweithgynhyrchwr a chamau dilynol, neu oedi cyn gwneud hyn. Yn achos 6 o'r ffeiliau nid oedd yr Awdurdod wedi cadarnhau canlyniadau'r ymchwiliad gyda'r achwynydd. Roedd dwy gŵyn wedi'u codio'n anghywir fel cwynion am fwyd ac felly wedi'u hadrodd yn anghywir yn yr adroddiadau chwarterol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

8.3 Nid oedd y cofnodion yn y ffeiliau ar gwynion am safonau bwyd yn ddigonol i benderfynu a gynhaliwyd ymchwiliad priodol ai peidio.

8.4 Nid oedd gan yr Awdurdod gofnod o unrhyw gwynion am fwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

8.5 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod y polisi a'r weithdrefn gwynion yn cael eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at gwynion am fwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 8.1]

(ii) Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ar gwynion a dderbyniwyd yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun. [Y Safon – 8.2]

9 Egwyddor Awdurdod Cartref

9.1 Roedd cofnodion ffeiliau yn dangos bod yr Awdurdod yn gweithredu ar sail anffurfiol gyda nifer o weithgynhyrchwyr lleol a chynhyrchwyr mawr.

9.2 Roedd y ffeiliau a archwiliwyd yn dangos bod sylw priodol wedi'i roi i'r wybodaeth a gafwyd yn dilyn ymgynghori â'r Awdurdodau Cartref yn ystod yr ymchwiliadau. Cafwyd tystiolaeth hefyd fod cyngor wedi'i roi ar faterion Awdurdod Cartref i awdurdodau gorfodi a oedd yn cysylltu â'r gwasanaeth.

10 Cyngor i Fusnes

10.1 Yn ogystal â'r cyngor a roddwyd yn ystod yr archwiliadau, ac yn y llythyrau a anfonwyd yn dilyn archwiliadau roedd yr Awdurdod yn gallu dangos dulliau eraill a ddefnyddir i helpu busnesau i gydymffurfio â'r gyfraith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Amrywiaeth o daflenni cynghori mewnol a swyddogol ar faterion hylendid bwyd a safonau bwyd i arlwywyr a phobl sy'n trafod bwyd .
- Dosbarthu dogfen o'r enw "A practical guide to Hazard Analysis and Critical Control Point" i fusnesau bwyd fel canllaw i weithredu system rheoli bwyd effeithiol.
- Cyfeirio pobl at gyrsiau hyfforddi hylendid bwyd.
- Roedd yr Awdurdod wedi cymryd rhan mewn prosiect HACCP cydweithredol ac wedi hwyluso hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn safleoedd bwyd uchel eu risg.

10.2 Nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod yr Awdurdod yn darparu cyngor ar fwydydd anifeiliaid i fusnesau.

Argymhelliad

10.3 Dylai'r Awdurdod:

Gynnwys cyngor ar fwydydd anifeiliaid yn ei gyngor i fusnesau.
[Y Safon – 10.1]

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata gyfrifiadurol o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Nid oedd trefniadau ffurfiol ar gyfer sicrhau bod y gronfa ddata yn gywir a chyfredol, ond roedd y manylion yn cael eu diweddaru ar ôl derbyn ffurflenni cofrestru ac yn dilyn ail-ymweld â'r safle a thrwy gyfeirio at gofnodion a gedwid gan adrannau eraill.

11.3 Archwiliwyd y gronfa ddata ar gyfer 12 busnes bwyd a gafodd eu nodi ar hap o'r cyfeiriadur busnes cyfredol. Roedd pob safle wedi'i gynnwys ar gronfa ddata'r Awdurdod ond oherwydd methiant i gofnodi archwiliad blaenorol, nid oedd un o'r rhain wedi'u cynnwys yn y rhaglen archwilio.

11.4 Roedd swyddogion yn gallu cael mynediad i'r cronfeydd data trwy ddefnyddio cyfrinair, ac wedi'u hatal rhag creu neu ddileu cofnodion. Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn gorfforaethol ar gyfer rheoli cyfrineiriau a chynnal gonestrwydd y gronfa ddata.

Argymhelliad

11.5 Dylai'r Awdurdod:

Lunio a rhoi gweithdrefn ddogfenedig ar waith i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir a chyfredol.
[Y Safon – 11.2]

12 Archwilio a Samplu Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.1 Roedd y labordai a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod wedi eu hachredu'n briodol.

12.2 Roedd gan yr Awdurdod bolisi samplu dogfenedig yn cwmpasu bwyd a bwydydd anifeiliaid a nifer o lythyrau safonol yn gysylltiedig â samplu ffurfiol a ddefnyddiwyd i hysbysu'r perchennog o broses a chanlyniad y dadansoddiad.

12.3 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2003/2004 yn nodi cyllideb samplu o £1,700 i'r gwasanaeth gorfodi bwyd.

12.4 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefnau samplu dogfenedig mewn perthynas â safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn y llawlyfr ansawdd safonau masnach drafft. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn ar gyfer samplu hylendid bwyd.

12.5 Roedd gan yr Awdurdod gynllun samplu yn nodi safleoedd penodol, ac roedd y samplu'n cael ei wneud yn unol â rhaglenni grŵp samplu lleol a chenedlaethol. Roedd safleoedd uchel eu risg, Safleoedd Cymeradwy a'r rhai dan ymchwiliad o ganlyniad i gŵyn yn rhan o'r rhaglen hon.

12.6 Archwiliwyd cofnodion 9 o samplau bwyd anfoddhaol. Ym mhob achos roedd camau gweithredu priodol wedi'u cymryd yn unol â pholisïau'r Awdurdod.

12.7 Nid oedd yr Awdurdod yn gallu dangos tystiolaeth o ddogfennau'n ymwneud â phenodiad swydd y Dadansoddwr Amaethyddol i gynnal y dadansoddiad angenrheidiol o samplau bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

12.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Lunio gweithdrefn samplu ddogfenedig sy'n cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog ac yn ystyried natur ei sefydliadau bwyd a bwydydd anifeiliaid ac ystod lawn gweithgareddau gorfodi'r Awdurdod. [Y Safon – 12.4]

(ii) Penodi Dadansoddwr Amaethyddol i wneud gwaith dadansoddi angenrheidiol ar samplau bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 12.7]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd gan yr Awdurdod gynllun dogfenedig ar reoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, a luniwyd ar y cyd â'r Awdurdod Iechyd, Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd a sefydliadau perthnasol eraill. Roedd angen adolygu'r cynllun a hysbyswyd yr archwilwyr fod yr Awdurdod yn disgwyl am ganlyniad adolygiad cenedlaethol a oedd i'w gynnal gan Banel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd.

13.2 Archwiliwyd cofnod ffeil a oedd yn ymwneud â'r 1 achos o glefyd heintus yn gysylltiedig â bwyd. Er bod yr Awdurdod wedi cynnal ymchwiliad trylwyr o'r safle roedd y cofnodion yn dangos bod oedi wedi bod cyn cynnal archwiliad llawn er gwaethaf hanes gwael o gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd. Ni luniwyd adroddiad ar yr achos fel sy'n ofynnol gan y weithdrefn achosion.

13.3 Roedd y Cynllun Rheoli Achosion hefyd yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i rybuddion unigol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, a set gynhwysfawr o nodiadau cynghori, holiaduron a llythyrau safonol.

13.4 Archwiliwyd cofnodion ffeiliau 10 rhybudd unigol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd ac roedd y cyfan wedi'u hymchwilio'n briodol a thrylwyr.

Argymhellion

13.5 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod y cynllun ar gyfer achosion o glefyd heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei adolygu ar y cyd â'r holl sefydliadau perthnasol. [Y Safon – 13.1]

(ii) Sicrhau bod y cynllun ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei weithredu'n effeithiol pe bai achos yn codi. [Y Safon – 13.1]

14 Achosion Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu gweithdrefnau dogfenedig ar ddelio â Rhybuddion Perygl i Fwyd (FHW) a dderbyniwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac er mwyn dechrau camau gweithredu mewn perthynas ag achosion a nodwyd yn lleol. Nid oedd y weithdrefn yn cynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau er bod yr Awdurdod yn gweithredu system ganolog i dderbyn negeseuon brys ar y ffôn.

14.2 Roedd system gyfrifiadurol yr Awdurdod yn gallu derbyn Rhybuddion Perygl i Fwyd.

14.3 Cadwyd cofnodion o ymateb yr Awdurdod i'r Rhybuddion Perygl i Fwyd mewn ffeil copi caled. Roedd yr holl Rybuddion a dderbyniodd yr Awdurdod wedi'u hymchwilio'n briodol a'r canlyniad wedi'i gofnodi. Fodd bynnag, pan nad oedd camau gweithredu yn briodol nid oedd yr Awdurdod wedi cofnodi eu penderfyniad.

14.4 Dywedwyd wrth yr archwilwyr na fu unrhyw achosion lleol difrifol yn y ddwy flynedd ddiwethaf a oedd angen eu hysbysu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Argymhelliad

14.5 Dylai'r Awdurdod:

Ddiwygio'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl i Fwyd i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau. [Y Safon – 14.1]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi gorfodi diogelwch bwyd dogfenedig a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau swyddogol ac wedi'i gymeradwyo gan fforwm aelodau perthnasol yr Awdurdod Lleol ym mis Chwefror 2003.

15.2 Nid oedd yr Awdurdod wedi darparu'r polisi neu grynodeb cywir ohono i'r cyhoedd a busnesau bwyd.

15.3 Roedd yr Awdurdod wedi cyflawni'r gweithgareddau gorfodi canlynol yn y 2 flynedd cyn yr awdit:

1 achos o erlyn;
10 safle wedi cael Rhybudd i Wella;
4 achos o Atafael/Cadw bwyd

15.4 Roedd yr achos o erlyn wedi'i weithredu yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau swyddogol. Roedd yn ymwneud â lladd defaid a gwerthu "smokies" yn anghyfreithlon. Roedd maint a chymhlethdod yr achos wedi golygu bod yr Awdurdod wedi defnyddio dull amlddisgyblaeth o ymdrin â'r ymchwiliad. Roedd y gwasanaeth gorfodi wedi gorfod datblygu gweithdrefnau newydd ar erlyniadau cymhleth a oedd yn cynnwys yr ystod lawn o ofynion deddfwriaethol a oedd yn angenrheidiol mewn ymchwiliad o'r fath. Roedd y gwaith hwn wedi effeithio'n sylweddol ar y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

15.5 Cyflwynwyd 18 Rhybudd i Wella ac archwiliwyd 6 ffeil o'u plith. Roedd yr achos o dorri'r rheolau a'r mesurau a gymerwyd wedi'u nodi. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid oedd Rhybuddion i Wella yn cael eu drafftio a'u cyflwyno yn unol â Chod Ymarfer Rhif 5 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Defnyddio Rhybuddion i Wella, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

15.6 Nid oedd enw llawn y perchennog wedi'i roi mewn 6 rhybudd. Mewn 2 achos nid oedd y rhesymau am y gwasanaeth wedi'u nodi'n ddigonol ac mewn 2 arall nid oedd y gwaith oedd ei angen wedi'i nodi'n ddigonol. Nid oedd y cyfeiriad at ddeddfwriaeth yn gyflawn mewn un rhybudd ac nid oedd 2 ffeil wedi nodi a gydymffurfiwyd â'r rhybuddion ai peidio. Ni chafwyd tystiolaeth o wasanaeth priodol yn unrhyw un o'r 18 achos.

15.7 Roedd y ffeil a oedd yn ymwneud â'r achos o wenwyn bwyd yn nodi bod Rhybudd i Wella a roddwyd i berchennog y safle wedi dod i ben ar adeg yr achos. Er bod tystiolaeth ar gael i nodi bod y safle wedi gwneud cais am estyniad amser ni chadarnhawyd a roddwyd hyn ai peidio. Nid oedd tystiolaeth i ddangos bod y safle wedi'i archwilio yn syth ar ôl i'r achos

ddod i'r amlwg. Nid oedd tystiolaeth yn y ffeil i ddangos bod ystyriaeth wedi'i roi i holi perchennog y busnes yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

15.8 Roedd y gwasanaeth wedi datblygu Llawlyfr Ansawdd Gorfodi Safonau Bwyd drafft a oedd yn cynnwys camau erlyn a gorfodi eraill. Roedd hefyd wedi llunio nifer o weithdrefnau ar orfodi hylendid bwyd, yn cynnwys Rhybuddion i Wella, Rhybuddion Gwahardd Brys, a chadw ac atafael bwyd.

15.9 Roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi nifer o Orchmynion Gwahardd Dros Dro yn eu hardaloedd cynaeafu pysgod cregyn ac roeddent yn gorfodi'r rhain.

15.10 Roedd yr Awdurdod yn cyflwyno rhybuddion am driniaeth gwres llaeth yn dilyn hysbysiad o achosion twbercwlosis mewn buchesi godro. Nododd y Cynllun Darparu Gwasanaeth fod 0.1 o staff CALl yn cael eu dyrannu i ddyletswyddau o'r fath. Dywedwyd wrth yr archwilwyr fod nifer y rhybuddion am 2002/2003 fwy na dwbl y nifer am 2001/2002, cynnydd o 66 i 145 ar adeg yr awdit.

Argymhellion

15.11 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod ei bolisi gorfodi neu grynodeb cywir ohono ar gael yn hawdd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn yr ardal. [Y Safon – 15.1]

(ii) Sicrhau bod yr holl weithgareddau gorfodi, yn enwedig Rhybuddion i Wella ac ymchwiliadau i achosion clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cyflawni yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Archwilio

Hylendid Bwyd

16.1 Roedd hi'n bosib cael gafael ar gofnodion safleoedd bwyd ac roedd y rhain wedi'u cadw ers 6 blynedd.

16.2 Archwiliwyd cofnodion y 10 safle cyffredinol lle cynhaliwyd archwiliadau hylendid bwyd. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion am faint y busnes, y math o weithgarwch bwyd, gwybodaeth am hyfforddiant hylendid neu asesiad o gydymffurfiad dadansoddi peryglon y busnes.

16.3 Archwiliwyd cofnodion 10 Safle Cymeradwy hefyd. Roedd pob ffeil yn cynnwys crynodeb o safleoedd a gweithgareddau, ac fel rheol roedd y ffeiliau'n cynnwys gwybodaeth am drefniadau rheoli plâu, hyfforddiant hylendid, asesu hunan-wiriadau HACCP a manylion am y rhaglen lanhau a'r cemegion a ddefnyddiwyd.

16.4 Archwiliwyd deg ffeil oedd yn ymwneud â thrwyddedu siopau cigyddion. Roedd cofnodion y ffeiliau'n gynhwysfawr gyda disgrifiad o weithrediadau'r safle, a manylion am gydymffurfio a gofynion hyfforddiant a HACCP.

16.5 Roedd yr Awdurdod yn cyhoeddi adroddiad archwilio neu lythyr dilynol ar ôl pob archwiliad hylendid bwyd, a oedd yn nodi'r rheswm am unrhyw waith neu gamau gweithredu angenrheidiol, yn nodi amserlenni priodol ar gyfer gweithredu ac yn dyfynnu cyfeiriadau deddfwriaethol cywir.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

16.6 Roedd hi'n bosib cael gafael ar gofnodion safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid ac roedd y rhain wedi'u cadw ers 6 blynedd er bod cofnodion ffeiliau safleoedd bwyd cyffredinol yn gyfyngedig.

16.7 Gadawyd ffurflenni ôl-archwiliad ar y safleoedd yn dilyn archwiliad o safonau bwyd, er mai dim ond mewn 1 o'r 10 ffeil a archwiliwyd y cafwyd copi o'r ffurflen.

Argymhelliad

16.8 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod manylion cofnodion sy'n cael eu cadw am archwiliadau safonau bwyd yn ddigonol i sicrhau bod modd gweld y camau gweithredu a gymerwyd a hanes o gydymffurfio. [Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn gwyno gorfforaethol a oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Safon.

17.2 Roedd gwybodaeth am y weithdrefn ar gael yn nerbynfa'r Adeiladau Dinesig.

17.3 Dywedwyd wrth yr archwilwyr nad oedd cwynion wedi'u cofnodi yn erbyn y gwasanaeth yn y 2 flynedd cyn yr awdit.

18 Ymgynghori â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau ymgynghori gydag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill er mwyn hwyluso gorfodaeth gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd rhan yn y canlynol:

- Grŵp Gorchwyl Diogelwch Bwyd y De Orllewin;
- Grŵp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy y De Orllewin;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru;
- Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru.
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru

Cadwyd cofnodion y cyfarfodydd hyn a oedd yn cadarnhau presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolydd y gwasanaeth.

18.2 Roedd yr Awdurdodau cyfagos yn cydnabod bod y gwasanaeth yn arbenigo mewn bwydydd anifeiliaid ac wedi trosglwyddo hyn i nifer o fyfyrwyr.

18.3 Roedd y gwasanaeth hefyd yn ymwneud yn rheolaidd ag adrannau eraill y Cyngor.

18.4 Roedd yr Awdurdod wedi cydweithio gyda nifer o adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi mewn cysylltiad â gweithgareddau cig anghyfreithlon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Y Gwasanaeth Hylendid Bwyd;
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig;
- Awdurdod Datblygu Cymru;
- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol;
- Yr Heddlu;
- Awdurdodau lleol y tu allan i Gymru.

19 Monitro Mewnol

19.1 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn fonitro fewnol ddogfenedig yn cwmpasu holl agweddau'r gwasanaeth ond roedd ganddo weithdrefnau drafft ar fonitro trefniadau gorfodi safonau bwyd ar ffurf archwiliadau system yn ei lawlyfr ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd y llawlyfr ansawdd wedi'i weithredu'n llawn ac nid oedd cofnodion i'w cael am awdit mewnol.

19.2 Cafwyd tystiolaeth o fonitro ansoddol a meintiol anffurfiol yn cynnwys y canlynol:

- Monitro perfformiad trwy adroddiadau mewnol a phwyllgorau;
- Cyfarfodydd tîm i drafod materion dehongli;
- Adolygu gohebiaeth;
- Archwilio contractwyr gyda chydweithwyr.

Argymhelliad

19.3 Dylai'r Awdurdod:

Lunio a rhoi gweithdrefn fonitro fewnol ar waith i sicrhau trefniadau gorfodi effeithiol a chyson a gwirio cydymffurfiad gyda holl feysydd y Safon, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.1]

20 Adolygiad gan Gymheiriaid neu Drydydd Parti

20.1 Roedd yr Awdurdod wedi cymryd rhan yng Nghynllun Awdit rhyng-Awdurdod Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru ym 1999. Roedd yr Awdurdod wedi llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr awdit.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Roedd yr Awdurdod yn gwneud ychydig o waith hyrwyddo diogelwch bwyd a safonau bwyd:

- Cymryd rhan yn Wythnos Diogelwch Bwyd Cenedlaethol Foodlink;
- Cymryd rhan yng Nghynllun Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru.

Argymhelliad

21.2 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau ei fod yn ehangu ei weithgareddau hyrwyddo i gynnwys safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]

Archwilwyr: **Nick Wellington**
Jane Davies
Rob Wilkins
Keith Blake

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Cynllun Gweithredu i Gyngor Sir Gaerfyrddin

Dyddiad Awdit: 11-13 Mawrth 2003

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
1. Cyflwyno adolygiad rheolaidd o'r holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog.	31/03/06	4.3(i) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1]	
2. Bydd y system reoli ddogfenedig yn cael ei hehangu i gynnwys hylendid bwyd a bwydydd anifeiliaid.	31/03/06	4.3(ii) Dylai'r Awdurdod ehangu ei system reoli ddogfenedig i gynnwys hylendid bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2]	
3. Cyflwyno gweithdrefn ddogfenedig i awdurdodi swyddogion a'i rhoi ar waith.	31/12/05	5.6(i) Dylai'r Awdurdod sefydlu gweithdrefn ddogfenedig i awdurdodi swyddogion a'i rhoi ar waith. [Y Safon – 5.1]	
4. Sefydlu a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig i gynnwys pob agwedd ar y gwasanaeth.	31/03/06	5.6(ii) Dylai'r Awdurdod lunio a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig i gynnwys pob agwedd ar y gwasanaeth. [Y Safon - 5.4]	
5. Sefydlu cofnod o gynnwys, amcanion, hyd ac unrhyw asesiad a wnaed o gyrsiau hyfforddi a fynychwyd.	31/03/06	5.6(iii) Dylai'r Awdurdod gofnodi cynnwys, amcanion, hyd ac unrhyw asesiad a wnaed o gyrsiau hyfforddi a fynychwyd. [Y Safon – 5.4]	
6. Sefydlu a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi i sicrhau bod pob offeryn mesur tymheredd yn cael ei raddnodi a'i wirio yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol.	31/12/05	6.4 Dylai'r Awdurdod lunio a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi i sicrhau bod pob offeryn mesur tymheredd yn cael ei raddnodi a'i wirio yn unol â Chod Ymarfer Rhif 10 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi Gofynion Rheoli Tymheredd Rheoliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon - 6.2]	

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
7. Bydd archwiliadau safleoedd hylendid bwyd yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer perthnasol.	Cwblhawyd	7.11(i) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 7.1]	Sefydlu system TG i fonitro'r gofyniad 28 diwrnod
8. Bydd archwiliadau o safleoedd cigyddion yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol.	Cwblhawyd	7.11(ii) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod y broses o archwilio a thrwyddedu safleoedd cigyddion yn cael ei chynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol a'r canllawiau swyddogol. [Y Safon – 7.2]	
9. Bydd archwiliadau safleoedd safonau bwyd yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer perthnasol.	Cwblhawyd	7.17(i) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod archwiliadau safonau bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd. [Y Safon – 7.1]	
10. Bydd adroddiadau ôl-archwilio'n cael eu cyhoeddi ar ôl pob archwiliad o safonau bwyd.	Cwblhawyd	7.17(ii) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod adroddiadau ôl-archwilio'n cael eu cyhoeddi ar ôl pob archwiliad o safonau bwyd. [Y Safon – 7.2]	
11. Adolygu'r weithdrefn gwyno i gynnwys cyfeiriad at gwynion am fwydydd anifeiliaid.	Cwblhawyd	8.5(i) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod y polisi a'r weithdrefn gwyno yn cael eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at gwynion am fwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 8.1]	
12. Cyflwyno rhaglen fonitro i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ar gwynion a dderbyniwyd yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun.	31/03/06	8.5(ii) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ar gwynion a dderbyniwyd yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun. [Y Safon – 8.2]	

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
13. Darparu taflenni cyngor i fusnesau sy'n cynnwys cyfeiriad at fwydydd anifeiliaid.	Cwblhawyd	10.3 Dylai'r Awdurdod gynnwys cyngor ar fwydydd anifeiliaid yn ei gyngor i fusnesau. [Y Safon – 10.1]	
14. Cyflwyno a rhoi gweithdrefn ddogfenedig ar waith i sicrhau bod y gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir a chyfredol.	Cwblhawyd	11.5 Dylai'r Awdurdod lunio a rhoi gweithdrefn ddogfenedig ar waith i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir a chyfredol. [Y Safon – 11.2]	
15. Cyflwyno a rhoi gweithdrefn ddogfenedig ar waith ar gyfer samplu bwyd a bwydydd anifeiliaid yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog.	Cwblhawyd	12.8(i) Dylai'r Awdurdod lunio gweithdrefn samplu ddogfenedig sy'n cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog ac yn ystyried natur ei sefydliadau bwyd a bwydydd anifeiliaid ac ystod lawn gweithgareddau gorfodi'r Awdurdod. [Y Safon – 12.4]	
16. Paratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer penodi Dadansoddwr Amaethyddol.	Cwblhawyd	12.8(ii) Dylai'r Awdurdod benodi Dadansoddwr Amaethyddol i wneud gwaith dadansoddi angenrheidiol ar samplau bwydydd anifeiliaid. [Y Safon - 12.7]	
17. Adolygu'r cynllun ar gyfer rheoli achosion o glefyd heintus sy'n gysylltiedig â bwyd gyda'r holl sefydliadau perthnasol.	31/12/05	13.5(i) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod y cynllun ar gyfer rheoli achosion o glefyd heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei adolygu ar y cyd â'r holl sefydliadau perthnasol. [Y Safon – 13.1]	Cynllun newydd ar fin cael ei dderbyn a'i gytuno.
18. Penodi Swyddog Arweiniol ym maes Clefydau Trosglwyddadwy i sicrhau bod y cynllun ar gyfer rheoli clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei weithredu'n effeithiol.	Completed	13.5(ii) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod y cynllun ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei weithredu'n effeithiol pe bai achos yn codi. [Y Safon – 13.1]	Penodwyd Uwch Swyddog yr Amgylchedd yn Swyddog Arweiniol ac mae wedi mynychu cyrsiau hyfforddi.

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
19. Diwygio'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl i Fwyd i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau.	31/03/06	14.5 Dylai'r Awdurdod ddiwygio'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl i Fwyd i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau. [Y Safon – 14.1]	
20. Sicrhau bod y Polisi Gorfodi (neu grynodeb cywir ohono) ar gael yn hawdd a'i osod ar wefan yr Awdurdod.	31/03/06	15.9(i) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi neu grynodeb cywir ohono ar gael yn hawdd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn yr ardal. [Y Safon – 15.1]	
21. Sefydlu a monitro system i sicrhau bod yr holl weithgareddau gorfodi yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau swyddogol a Chodau Ymarfer perthnasol.	31/03/06	15.9(ii) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod yr holl weithgareddau gorfodi, yn enwedig Rhybuddion i Wella ac ymchwiliadau i achosion clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cyflawni yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]	
22. Sefydlu system i sicrhau bod manylion cofnodion sy'n cael eu cadw am archwiliadau safonau bwyd yn ddigonol i sicrhau bod modd gweld y camau gweithredu a gymerwyd a'r hanes o gydymffurfio.	Cwblhawyd	16.8 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod manylion cofnodion sy'n cael eu cadw am archwiliadau safonau bwyd yn ddigonol i sicrhau bod modd gweld y camau gweithredu a gymerwyd a'r hanes o gydymffurfio. [Y Safon – 16.1]	
23. Rhoi gweithdrefn fonitro fewnol ar waith i sicrhau trefniadau gorfodi effeithiol a chyson a gwirio cydymffurfiad gyda holl feysydd y Safon, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun.	31/12/05	19.3 Dylai'r Awdurdod lunio a rhoi gweithdrefn fonitro fewnol ar waith i sicrhau trefniadau gorfodi effeithiol a chyson a gwirio cydymffurfiad gyda holl feysydd y Safon, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.1]	Swyddogion Arweiniol diogelwch bwyd a safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid i gyflawni'r gwaith monitro hwn.

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
24. Ehangu'r gweithgareddau hyrwyddo cyfredol i gynnwys safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.	Cwblhawyd	21.2 Dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn ehangu ei weithgareddau hyrwyddo i gynnwys safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]	

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Unigolyn, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig, a benodwyd yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau o fwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safleoedd gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac a dderbyniodd god adnabod unigryw sy'n berthnasol i fasnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran, er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth er enghraifft.
Gwerth Gorau*	Polisi'r Llywodraeth sy'n ceisio gwella perfformiad llywodraeth leol o ran darparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed i iechyd yr amgylchedd a chynnal a chadw ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu'r cyfraniad mae pobl leol yn ei wneud at benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella trefniadau rheoli ac adolygu busnes awdurdodau • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella wedi disodli hyn yn ddiweddar
Man Archwilio ar y Ffin	Pwynt mynediad i'r DU o wledydd sydd y tu allan i'r UE ar gyfer cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a roddwyd dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi'r ddeddfwriaeth fwyd.
Concordat Gorfodi	Canllawiau'r Llywodraeth sy'n nodi egwyddorion a gweithdrefnau gorfodaeth da y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Fe'i datblygwyd ar y cyd â

busnesau, llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog, grwpiau defnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb. Mae'n nodi beth gall busnesau ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan swyddogion gorfodi.

Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau porthiant ar gyfer anifeiliaid fferm a bwyd anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Unigolyn, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig i wneud dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl i Fwyd	System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu diogelwch a natur lesol bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyno a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd • Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Awdit Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ar gynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith bwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Asiantaeth ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr archwiliadau, samplau ac erlyniadau. Dan y **Cynllun Awdit** bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal awdit o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn erbyn y meini

	prawf a nodir yn y Safon.
Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli rhan o amser swyddog unigol sydd ar gael i wneud swyddogaeth arbennig neu set o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallant fod â chyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn ymwneud â gorfodaeth bwyd.
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system reoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol o ran diogelwch bwyd fod y mesur rheoli'n cael ei gyflawni'n gywir, gan ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel.
Awdurdod Cartref	Yr Awdurdod lle mae canolfan gwneud penderfyniadau perthnasol menter wedi'i lleoli a'r awdurdod sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog i ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig â bwyd y cwmni hwnnw.
Rhybudd i wella	Rhybudd sy'n cael ei roi gan Swyddog Awdurdodedig awdurdod lleol dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, yn gofyn i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio rhyng-awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd y cytunwyd arni.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau ar wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd.
Adroddiadau OCD	Dychweliadau ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd dan Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae

	busnes yn cynhyrchu neu'n pacio nwyddau neu wasanaethau a lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog i ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol sy'n cynnwys pwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig, a benodwyd yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i wneud dadansoddiad cemegol o samplau bwyd.
Cyfradd risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl risg ac yn penderfynu pa mor aml y dylid archwilio'r safleoedd. Er enghraifft, dylid archwilio safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg o leiaf bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol yn nodi eu cynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o awdurdod lleol sy'n cyflawni, ymhlith cyfrifoldebau eraill, ddyletswyddau gorfodi safonau bwyd a deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (TSO)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a all, ymhlith cyfrifoldebau eraill, orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle mae'r holl swyddogaethau'n cael eu cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.